

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

The
Electoral
Commission

Cynnwys

Fideos gan bleidleiswyr

Gwybodaeth am gyfres o fideos am bleidleisio hygyrch a dolenni i'r rhai cyntaf.

Data ar dwyll etholiadol 2018

Gwybodaeth am honiadau o dwyll etholiadol yn 2018 a dolen i'r data.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n sianeli allweddol i gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadau](#).

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiado.l.org.uk.

Cofiwch [roi gwybod i ni](#) am unrhyw newidiadau o ran staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Rydym yn anfon y cylchlythyr atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r



Rhifyn 234 (Cymru) – 27 Mawrth 2019

Fideos gan bleidleiswyr

Mae'r Comisiwn yn cynhyrchu cyfres o fideos i ddangos y pethau syml y gellir eu gwneud i wella profiad pobl o bleidleisio a helpu i sicrhau bod pleidleisio yn hygyrch i bawb.

Mae ein fideos cyntaf gyda Mencap, sef elusen sy'n gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu. Mae [Harry](#) (sydd ag anabledd dysgu ac awtistiaeth) a [Charlotte](#) (sydd ag anabledd dysgu a Syndrom Williams) yn dweud wrthym am eu profiadau o bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio a'r ffordd y gellir gwella'r profiad i bobl ag anabledd dysgu yn eu barn hwy.

Awgrymodd Harry y gallai un o aelodau o staff yr orsaf bleidleisio wisgo bathodyn hygyrchedd er mwyn i bleidleiswyr wybod i bwy y gallant ofyn am gymorth. Gofynnodd staff yr orsaf bleidleisio i Charlotte p'un a oedd angen cymorth arni, gan ei thywys o amgylch yr orsaf bleidleisio ac esbonio iddi ble i roi ei phapur pleidleisio, a oedd, yn ei barn hi, yn ddefnyddiol.

Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fideos yn fuan – bydd yr un nesaf yn cynnwys rhywun sydd wedi colli ei olwg.

Data ar dwyll etholiadol 2018

Bob blwyddyn mae pob heddlu ledled y DU yn anfon data atom am honiadau o dwyll etholiadol, ac ar 20 Mawrth, [cyhoeddwyd data ar honiadau o dwyll etholiadau yn 2018 gennym](#).

Dengys ein crynodeb i'r heddlu ymchwilio i 266 o achosion o dwyll etholiadol honedig yn 2018. O blith y rhain, roedd dros hanner yn ymwneud ag honiadau ynglŷn â throseddau ymgyrchu, megis datganiadau anwir am ymgeiswyr neu beidio â chynnwys argraffnod ar ddeunydd ymgyrchu argraffedig.

Nid oes unrhyw dystiolaeth o dwyll etholiadol ar raddfa fawr mewn cysylltiad ag etholiadau 2018 - yn wir canfuwyd bod y rhan fwyaf o'r honiadau yn ddi-sail ac ni chymerwyd unrhyw gamau

pellach. Yn ystod y flwyddyn dim ond un person a gafodd ei euogfarnu o fân drosedd a dim ond dau berson a gafodd eu rhybuddio gan yr heddlu. Fodd bynnag, gall canfyddiad y cyhoedd o dwyll etholiadol danseilio democratiaeth a gwanhau traddodiad cryf y Deyrnas Unedig o etholiadau rhydd a theg.

Ceir rhagor o wybodaeth, gan gynnwys siartiau yn dangos y categorïau o achosion, canlyniadau a thueddiadau ers 2010 ar [ein gwefan](#). Ceir hefyd astudiaethau achos o'r euogfarn a rhybuddion yr heddlu sy'n dangos Swyddogion Canlyniadau, heddluoedd ac erlynwyr yn cymryd honiadau o dwyll o ddifrif.

.....
Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwytbodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu
Data a deddfwriaeth diogelu
data'r DU fel yr amlinellir yn ein
hysbysiad preifatrwydd
(<https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice>)

Os nad ydych am dderbyn y
cylchlythyr hwn mwyach,
gallwch [danysgrifio](#) ar unrhyw
adeg.